# MAIR ELUNED PRITCHARD ar drywydd ab HU FEDDYG AC ANWYLINI

MAE'N BUR debyg y buasai pobl canolbarth Môn yn mynnu mai un ohonynt hwy oedd Dr John Pughe gan mai yno yn Ysgubor Fawr, Chwaen Wen, y ganwyd ef yn 1815. Ym Môn, hefyd, yn 1821 y ganwyd ei frawd Dr David William Pughe ac yn 1826 ei chwaer Eliza. Buasai pobl Aberdyfi, hwythau, yn mynnu'r hawl ar John Pughe gan mai yno y gwasanaethodd fel meddyg o 1844 hyd ei farwolaeth yn 1874, ac yn wir o ardal Tywyn Meirionnydd yr hanai ei hen nain o ochr ei dad.

Ond i bobl Clynnog Fawr yn Arfon (yn Nwyfor o dan drefn bresennol llywodraeth leol) nid oes amheuaeth nad un o blant y plwyf hwnnw oedd y meddyg a'r hynafiaethydd crefyddol a dyngarol hwn. Yr oedd yn un o'r teulu Pughe, Lleuar Bach. Fe orwedd pedair cenhedlaeth o'r teulu hwnnw ym mynwent Beuno Sant yn Nghlynnog a dwy genhedlaeth ddiweddarach ym mynwent Brynaerau.

Ymsefydlodd y teulu gyntaf yn ardal Brynaerau yng nghanol y ddeunawfed ganrif pan ddaeth un David Roberts o blwyf Llanllyfni yn amaethwr i Leuar Bach gyda'i wraig gyfoethog, Catherine Pughe, aeres Erw Faethlon, Tywyn. Bedyddiwyd eu hunig fab yn John Pughe Roberts, ond erbyn iddo ddilyn ei dad fel ffermwr Lleuar Bach yr oedd yr enw Pughe wedi disodli'r cyfenw Roberts.

Daeth y John Pughe hwn yn drwm o dan ddylanwad yr efengylwr, y Parch Robert Roberts, Clynnog, ac yn groes i ddymuniad ei rieni ymaelododd yn eglwys ieuanc y Methodistiaid yng Nghapel Uchaf, Clynnog. Toc wedi i'r ddau droi eu deg ar hugain oed fe welodd John Pughe a Robert Roberts ddiwygiad grymus yn y Capel Uchaf yn 1793, ar flwyddyn ddilynol, ar ôl ymweliad Thomas Charles o'r Bala â'r lle, fe sefydlwyd Ysgol Sul yno. Dylanwadodd y grymoedd crefyddol gryn dipyn ar weithredoedd beunyddiol gŵr Lleuar Bach.

Pan aeth hi'n anodd i Robert Roberts fynd i'w gyhoeddiadau pregethu oherwydd bod Colier, ei geffyl, yn rhy hen i'r teithiau, rhoddodd John Pughe gaseg winau hardd yn anrheg iddo. Anrhegai hefyd dlodion y plwyf â darnau o gig adeg y Nadolig.

Ond byr fu ei oes, ac er iddo fedru fforddio talu deugain punt am driniaeth yng Nghaernarfon gan Dr Rowlands o Gaer, bu farw yn un a deugain oed yn 1802. Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, yn ddeugain oed, bu farw hefyd ei gyfaill mawr ysbrydol, y Parch Robert Roberts.

* * * *

UN O BLANT John Pughe oedd David Roberts Pughe. Ymbriododd ef ag Elizabeth Williams, merch William Owen o'r Chwaen Wen ym Môn, ac yn yr ardal honno y bu cartref y ddau am tua deunaw mlynedd. Yno y ganwyd eu tri phlentyn. Ond yn 1829 dychwelodd David Roberts Pughe i'w blwyf genedigol pan gafodd denantiaeth fferm Bachwen ger pentref Clynnog Fawr. Yr oedd ei blentyn hynaf, John, yn bedair ar ddeg oed erbyn hynny, a David Williams yn wyth ac Eliza yn dair.

Gellir dychmygu mai un o'r pethau aeth â bryd y bechgyn yn syth ym Machwen oedd y gromlech nodedig sydd ar un o'r caeau. Yr oedd y ddau yn fyw iawn eu meddwl ac yn fuan ar ôl dod i Glynnog fe âi John am wersi at Eben Fardd i'r Ysgol Genedlaethol a gynhelid mewn rhan o'r eglwys a elwir yn Gapel Beuno. Gwersi oedd y rhain yn ôl ei dystiolaeth ei hun 'i dynnu y rhwd oddi ar fy rhifyddiaeth'.

Ond fe fuont hefyd yn gyfrwng i gychwyn cyfeillgarwch oes rhwng John Pughe ac Eben Fardd, ac er bod tair blynedd ar ddeg o wahaniaeth yn eu hoedran cawsant lawer o gysur yng nghwmni ei gilydd. John Pughe sy'n cyfaddef yma yr hyn a wnâi'r ddau ar ddiwedd gwers: '. . . bolltem hen ddrws Capel Beuno a chydiem yn y bêl yn iachus gan chwareu ei chalon hi yn erbyn yr hen fur uchel oddi fewn am hanner awr'.

Ym Medi 1834 aeth y ddau gyfaill am dro gyda'i gilydd dros y Bwlch Mawr i Eifionydd. Cofnododd y ddau ohonynt eu hargraffiadau o'i gilydd ar ôl y daith honno, ac er mai edmygedd a fynegwyd yn bennaf o'r ddau du, yr oedd yna elfen o feirniadaeth hefyd. Yn ôl ei gyfaill yr oedd 'Mr Pughe' yn *'wild in his theories and somewhat arrogant'*.

Ond os ydoedd dipyn yn ymffrostgar a braidd yn wyllt ei syniadau, medrid maddau iddo o sylweddoli mai pedair ar bymtheg oed oedd ef yr adeg honno. Yr oedd eisoes wedi dechrau ei gwrs yn Athrofa Sant Thomas yn Llundain i'w gymhwyso ei hun yn feddyg. 'Roedd yn aml yn ddigon hiraethus yn y ddinas fawr honno fel yr awgryma cerdd faith a anfonodd adref i'w fam, 'Hiraeth am Gymru'.

Yn ystod ei wyliau o'r athrofa fe ddeuai adref at ei deulu, oedd erbyn hyn wedi symud i fferm arall ym mhlwyf Clynnog, Coch y Big. Yr oedd y tad, felly, wedi dod i fyw am y terfyn â'i hen gartref, Lleuar Bach, lle 'roedd ei chwaer Anne yn parhau i fyw gyda'i phriod, y Capten Lewis Owen o Landecwyn, Meirion.

Pan fyddai gartref, un o'r mannau hyfrytaf gan John Pughe i ymweld ag ef oedd Craig Dinas, hen gaer o'r Oes Haearn.

* * * *

OND DYCHWELYD i Lundain oedd raid ar ôl y gwyliau, ac er mai 'dinas estron yw hon yma' oedd ei brofiad ohoni, fe lwyddodd i'w gymhwyso ei hun yn feddyg ynddi. 'Roedd Eben Fardd yn llawenhau cymaint â neb o weld MRCS ar ôl enw'i gyfaill ac aeth ati i gyfansoddi cyfres o englynion i'w gyfarch yn dechrau:

**Ciliwch heddyw y Clochyddion —**
**ni bydd**
**Angen beddau'n union;**
**Pughe'r meddyg biau'r moddion—**
**Gwna hoedl hir i'r genedl hon.**

Yr oedd hynny yn 1838. Ym Medi'r flwyddyn honno 'roedd John Pughe yn dechrau ar ei waith fel meddyg yn y Bermo. Yn Chwefror y flwyddyn ddilynol, ag yntau erbyn hynny yn bump ar hugain oed, fe briododd yn Eglwys Llanbeblig, Caernarfon, â Catherine Samuel, unig ferch Samuel Samuel, adeiladydd llongau yn y dref.

Ymddengys ei fod yn fuan ar ôl ei briodas wedi bwriadu dychwelyd i ymgartrefu ym mhlwyf Clynnog ac yn 1842 fe gododd glamp o dŷ newydd ar un o gaeau Coch y Big a'i alw yn Bron Dirion Villa. Ond yn 1844 fe aeth yn feddyg i Aberdyfi, a hynny, o bosibl, oherwydd y clymau teuluol oedd rhyngddo a'r lle drwy ei hen nain Lleuar Bach. Symudodd ei rieni i fyw o Goch y Big i Fron Dirion gan gadw peth o dir Coch y Big i ganlyn y Villa newydd.

Yn Aberdyfi ymgartrefodd Dr John Pughe a'i wraig Catherine ym Mhen Helyg, ac am flynyddoedd wedyn Pen Helyg, Aberdyfi, welid wrth ei enw mewn llythyrau ac erthyglau. Erbyn hynny, hefyd, yr oedd wedi mabwysiadu'r enw Ioan ab Hu Feddyg.

Bu farw Catherine ei wraig yn 1862 ac ar ôl ei ail briodas â Maria symudodd i fyw i Fryn Awel, Aberdyfi. Yn 1853, ar enwebiad R. Lloyd Williams, o Inffyrmari Dinbych, etholwyd ef yn Gymrawd o Goleg Brenhinol y Llawfeddygon (FRCS).

Ar wahân i'w waith fel meddyg yr oedd nifer o bethau eraill a gadwai Ioan ab Hu Feddyg yn brysur. Eisteddai'n rheolaidd ar y fainc fel ustus heddwch. Ymddiddorai mewn hynafiaethau a henebion. Mae'n bosibl fod cromlech Bachwen a chaer Craig Dinas wedi ei ysgogi i'r cyfeiriad hwn yn ei fachgendod. Ond wrth gwrs 'roedd ymddiddori mewn hynafiaethau yn beth ffasiynol ymhlith gwŷr dysgedig y cyfnod.

Yn fuan ar ôl sefydlu *The Cambrian Archaeological Society* yn 1846 ymunodd Dr Pughe â hi a daeth yn ysgrifennydd cangen Meirionnydd ohoni. Cyfrannai erthyglau i gylchgrawn y gymdeithas.

Yn 1866 ef oedd yn bennaf gyfrifol am drefnu arddangosfa ar gyfer cyfarfod cyffredinol y gymdeithas ym Machynlleth. Casglodd amryw o greiriau o blwyf ei hynafiaid yng Nghlynnog i'r arddangosfa honno. Yr oedd yno ddarn o arian bath o gyfnod Elisabeth ganfuwyd yng Nghoch y Big, darn o bren cerfiedig o eglwys Beuno Sant, a dwy fwyell bres a ganfuwyd mewn mawnog yn Ynys yr Arch.

* * * *

YNG NGHANOL y ganrif fe'i cafodd ei hun yn dechrau ar orchwyl a roddodd y bri mwyaf arno, o bosibl. Yn Hydref 1850 mewn llythyr at Eben Fardd nodai ei fod wedi dechrau cyfieithu gweithiau Meddygon Myddfai i'r Saesneg. Mae'n debyg mai gobeithio cael goleuni ar y dasg a'i wynebai yr oedd wrth holi yn ei lythyr a oedd unrhyw destunau meddygol eraill ar gael yn Gymraeg. Ac yr oedd yn dymuno cael benthyca *Welsh Botanology* Davies gan unrhyw un a fedrai wneud y gymwynas honno ag ef.

Aeth rhai blynyddoedd heibio cyn i'w gyfieithiad gael ei gyhoeddi gan y *Welsh MSS Society* ond nid oedd hynny ond i'w ddisgwyl oddi ar law dyn oedd â chynifer o heyrn yn y tân.

Rhoddai lawer o'i amser i weithgareddau crefyddol. Yn gynnar yn Aberdyfi ymunodd â sect y Brodyr Plymouth ac adeiladodd gapel iddynt ar dir y teulu. Gan na chredai'r sect honno mewn ordeinio gweinidogion na thalu i undyn am ledaenu'r Efengyl, dibynnid ar leygwyr i wasanaethu yn oedfaon y Sul. Oherwydd hynny 'roedd Dr John Pughe yn pregethu bron bob Sul.

Mae'n amlwg y buasai wedi hoffi gweld ei gyfaill Eben Fardd yn yr un gorlan ag ef ac fe drefnodd i'r bardd ddod i gysylltiad â rhai o blith y mwyaf dylanwadol o'r Brodyr megis S. P. Tregelles a Syr Edward Denny, Plymouth.

Yr oedd Cristnogaeth